Grŵp Gorchwyl a Gorffen Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Cyfarfod 7
23ain Chwefror 2010
Dyfodol Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru ar ôl Adolygiad y DU.
Y Drenewydd

Presennol

Nick Birula	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (Cadeirydd)
Julia Korn	Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Russel Hobson	Gwarchod Glöynnod Byw
Nigel Ajax Lewis	Ymddiriedolaethau Natur
Stephen Bladwell	RSPB
Kate Williamson	Y Gymdeithas Famaliaid/Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Parc Cenedlaethol Eryri

Ymddiheuriadau

Gareth Ellis	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog / CGBau Lleol
Trevor Dines	Cadeirydd Plantlife
Juliet Hynes	Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Chris Tucker	Y Comisiwn Coedwigaeth
Jan Sherry	CCGC
Aethne Cooke	CCGC (Morol)

1. Cofnodion a Chamau Gweithredu cyfarfod mis Ionawr 2009

I weld cynnydd ar gamau gweithredu gweler y templed gweithredu o'r cyfarfod ar 29 Medi 2010 ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Hwn oedd cyfarfod olaf y grŵp hwn ac felly cafodd pob cam ei ddiweddaru. Nid oedd rhai yn gyfredol mwyach ac roedd y gweddill yn mynd rhagddynt. Cytunwyd ar gofnodion y 6ed cyfarfod. Cam gweithredu - Julia i gyfieithu'r camau gweithredu a'r cofnodion o gyfarfodydd 6 a 7 a'u cyhoeddi ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

Materion sy'n codi o'r camau gweithredu
Grantiau CCGC a'r defnydd o BARS: Rhoddodd Julia y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y cynllun peilot y mae CCGC yn ei gynnal eleni gydag un partner strategol a dau awdurdod lleol i'w helpu i adrodd ar gamau gweithredu bioamrywiaeth a ariennir gan CCGC ar y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth (BARS) yn unig. Y nod yw cyflwyno hyn i bob partner yn y dyfodol. Mae Julia a Juliet yn rhan o'r cynllun peilot hwn, gyda Juliet yn rhoi cymorth i'r partneriaid grant sy'n rhan o'r broses a chyngor ar ddatblygiadau technegol i Dîm BARS y DU.

Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru Gwnaeth Julia hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y broses o ddiwygio Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru. Mae'r ddogfen Dyfodol System y CGB wedi'i hymgorffori ac mae'r testun a'r atodiadau wedi'u diweddaru. Mae'r protocolau ar gyfer cydweithio yn y Bartneriaeth newydd, ehangach hefyd wedi'u cynnwys a cheir adran ar y Dull Ecosystemau a fydd yn ymgorffori Datganiad Ecosystemau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru unwaith y cytunir arno. Mae rôl a chyfrifoldeb Partneriaethau CGB Lleol wedi'u hymgorffori yn y brif ddogfen ac felly nid yw Atodiad H yn bodoli mwyach. Fodd bynnag, mae Annex K newydd yn nodi cyfrifoldebau llywodraeth leol. Diana Reynolds o'r

Cynulliad fydd yn gyfrifol am y ddogfen yn y pen draw ac mae ganddi'r fersiwn ddiweddaraf a gaiff ei chyhoeddi ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ym mis Mawrth. Awgrymodd Nick fod angen rheoli gwahanol fersiynau o'r ddogfen am nad oedd rhai elfennau yn y fersiwn ddiweddaraf ac y byddai'n rhaid esbonio wrth bobl pam bod yr elfennau hyn wedi'u hepgor. Mae Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru wedi'i ddiweddaru yn sgîl y dull newydd o ddarparu bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae'r newidiadau pennaf o ganlyniad i'r ffaith bod dogfen System y CGB wedi'i hymgorffori yr ymgynghorwyd yn eang arni ac y cytunwyd arni gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Mae'r newidiadau eraill yn ddiweddariadau yn hytrach nag unrhyw newidiadau o ran cynnwys.

Bylchau o ran partneriaid Arweiniol Rhywogaethau
Cyflwynodd y Grŵp Arbenigwyr ar Rywogaethau bapur i gyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar 10fed Chwefror yn gofyn i gynllun prentisiaeth gael ei sefydlu ar gyfer Hymenoptera y gellid ei gynnal ar sail debyg i'r fenter prentisiaeth cen. Cytunodd Sean McHugh i ymchwilio i hyn. I gael gwybodaeth lawn am y canlyniad, gweler cofnodion cyfarfod 10 Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar wefan y Bartneriaeth.
Cydnabyddir yr angen am fwy o arbenigwyr ar rywogaethau yng Nghymru a gellid ystyried menter fwy strategol ar draws gwahanol ddosbarthiadau o organebau e.e. drwy Natur neu Ganolfannau Cofnodion Lleol. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cynnig arian ar gyfer datblygu sgiliau, a byddai'n werth archwilio'r cyfle hwn.

Yng nghyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru gwnaeth Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd gynnig bod yn bartner arweiniol ar gyfer rhai rhywogaethau.

Mae'n bwysig i rolau aelodau'r Grŵp Arbenigwyr ar Rywogaethau gael eu diffinio'n glir ac ar wahân i rolau'r Partneriaid Arweiniol Rhywogaethau. Y partneriaid arweiniol ar gyfer rhywogaethau fydd yn pennu targedau a chamau i'w cymryd mewn perthynas â rhywogaethau ac yn rheoli'r broses o ymgynghori ar y camau hyn a'u cyhoeddi, a'r Grŵp Arbenigwyr ar Rywogaethau fydd yn gyfrifol am roi cyngor i'r Grwpiau Ecosystem ar integreiddio camau gweithredu sy'n ymwneud â rhywogaethau i'r broses o reoli cynefinoedd.

Efallai y bydd angen i bartneriaid arweiniol ar gyfer rhywogaethau unigol ddatblygu fforwm o fewn neu ar draws dosbarthiadau o organebau i gefnogi eu rôl. Mae Grŵp Mamaliaid Cymru wedi datblygu yn Fforwm Gweithredu Bioamrywiaeth Mamaliaid Cymru a fydd yn cefnogi partneriaid arweiniol ar gyfer Mamaliaid a grwpiau darparu sylfaenol drwy gynnal cyfarfodydd/gweithdai rheolaidd. Bydd cynrychiolwyr o'r Fforwm hwn yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Grŵp Arbenigwyr ar Rywogaethau gan ddarparu cyswllt uniongyrchol rhwng y ddau. Gall hwn fod yn fodel defnyddiol i eraill ei ddefnyddio.

Pennu Targedau ar gyfer rhywogaethau
Ar hyn o bryd mae'r Grŵp Arbenigwyr ar Rywogaethau yn cydlynu llawer o'r gwaith ar bennu targedau y dylai'r partneriaid arweiniol ei wneud. Yn y cyfarfod diwethaf ar Ddyfodol y CGB lluniodd y grŵp amserlen uchelgeisiol ar gyfer cyhoeddi camau gweithredu a thargedau ar gyfer rhywogaethau Cymru. Dechreuodd y broses yn dda drwy gyhoeddi camau gweithredu gwreiddiol y CGB ar gyfer planhigion fasgwlaidd

a'r camau gweithredu a'r targedau ar gyfer y grŵp 1af o Lepidoptra a phob rhywogaeth o Famaliaid ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, lle maent wedi aros. Yn dilyn hyn ni chyhoeddwyd unrhyw gamau gweithredu na thargedau pellach. Penderfynwyd bod nifer fach o arbenigwyr yn gweithio ar dasg enfawr ac felly bod angen system fwy hyblyg a bod angen cyhoeddi targedau ychydig ar y tro fel rhan o raglen dreigl. Penderfynodd y grwpiau y dylid datblygu a chyfleu prosesau cyhoeddi ac ymgynghori clir, ond na chytunid ar unrhyw ddyddiadau penodol. Dylid cyhoeddi pob cam gweithredu ychydig ar y tro ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru am gyfnod ymgynghori o chwe wythnos o dan reolaeth y partner arweiniol, ac y dylid cyhoeddi pob targed ar dudalennau cynghori'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth (BARS). Cafodd y broses hon ei lansio ochr yn ochr â'r broses o ailgyhoeddi'r tair set o gamau gweithredu uchod ar 1af o Fawrth am gyfnod ymgynghori o chwe wythnos.

Pennu camau gweithredu sy'n ymwneud â rhywogaethau i gynefinoedd
Dim ond pan gaiff camau gweithredu ar gyfer rhywogaethau eu nodi y gellir gwneud hyn. Mae camau gweithredu ar gyfer cynefinoedd wrthi'n cael eu datblygu ond efallai y bydd angen diweddaru'r rhain dros amser i adlewyrchu anghenion priodol y rhywogaethau. Ar hyn o bryd mae camau gweithredu ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau yn cael eu datblygu ar yr un pryd, ac efallai y bydd angen adolygu hyn ar gyfer y flwyddyn nesaf i sicrhau integreiddiad. Bydd y Grŵp Arbenigwyr ar Rywogaethau yn rhoi cyngor i'r Grwpiau Ecosystem ar gamau gweithredu y mae angen iddynt eu cymryd ar gyfer rhywogaethau. Mae'r Grŵp Coetir yn ystyried rheoli coedwigoedd penodol yng Nghymru ar gyfer rhywogaethau penodol.

Grŵp Dyfodol y CGB - sicrhau y caiff camau eu cymryd
Penderfynodd y grŵp mai hwn ddylai fod y cyfarfod olaf eleni. Dylai Tîm Cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru adolygu'r sefyllfa yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, ac os oes angen cyfarfod arall i fynd i'r afael â materion penodol, gellid cynnal un yn 2011.

Camau gweithredu ar gyfer cynefinoedd
Yn anffodus ni allai Jan ddod i'r cyfarfod i roi'r newyddion diweddaraf ar y cynnydd mewn perthynas â chamau gweithredu ar gyfer cynefinoedd. Disgwylir i rai camau gweithredu fod yn barod i'w trosglwyddo i staff rhanbarthol CCGC erbyn diwedd wythnos gyntaf mis Mawrth a'u cyhoeddi ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ddiweddarach yn y mis ar gyfer cyfnod ymgynghori o chwe wythnos wedi'i gydlynu gan Gadeiryddion y Grwpiau Ecosystem. Cafodd pob Cadeirydd ei annog i gynllunio rhai camau gweithredu yn barod ar gyfer y seminarau lleol ym mis Mai gan y byddai'n rhaid iddo ategu ei drafodaethau â chamau gweithredu arfaethedig.

Seminarau Bioamrywiaeth Lleol
Mai 6ed yng Nghanolfan Amgylcheddol Bangor
Mai 12fed yng Nghaerffili
Mai 13eg yn Abertawe.

Nod sesiwn foreol y gweithdy ym mhob un o'r seminarau yw dod â swyddogion bioamrywiaeth lleol, partneriaid lleol eraill a chynrychiolwyr o grwpiau lefel Cymru ynghyd i drafod y broses o gymryd camau gweithredu â blaenoriaeth yng Nghymru drwy:

a) cytuno ar y broses o gymryd rhai o'r camau
b) ystyried pa gamau gweithredu lleol y gallai partneriaid lleol eu rhoi ar waith petai materion penodol yn cael eu datrys, gan nodi'r materion hyn a phwy sydd angen mynd i'r afael â hwy
c) canfod a oes unrhyw gamau nad oes unrhyw un yn fodlon eu cymryd, a pham

Bydd y sesiynau hyn hefyd yn gyfle i bartneriaid lleol drafod sut y gallant weithio'n agosach gyda grwpiau lefel Cymru ar fentrau cyffredin ac ati. Mae pob Cadeirydd grwpiau CGB Cymru wedi cytuno i ddod i o leiaf un o'r seminarau.

Bydd sesiynau'r prynhawn yn wahanol ym mhob seminar a chânt eu trefnu gan aelodau Tîm Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (h.y. Julia Korn ym Mangor, Juliet Hynes yng Nghaerffili a Sean McHugh yn Abertawe). Byddant yn canolbwyntio ar weithredu. Mae syniadau am drafodaethau yn cynnwys grwpiau o Rywogaethau Anfrodorol Ymledol gan Len Wyatt o Is-adran Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac arianwyr e.e. WREN.

Dim ond lle i 30 o unigolion sydd yn y seminarau hyn felly nid dyma'r unig ddull o gyfathrebu rhwng y rheini sy'n gweithio ar lefel Cymru a'r rheini ar lefel ranbarthol/lleol. Hwn yw'r cam cyntaf, a bydd angen ystyried ffyrdd eraill o ddod â phartneriaid ynghyd, fel presenoldeb cynrychiolwyr ar lefel Cymru mewn cyfarfodydd lleol, gweithdai yng nghynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a gweithdai ar gyfer cynulleidfaoedd penodol e.e. bydd angen ystyried tirfeddianwyr/rheolwyr.

Mapio cyfleoedd ar gyfer cynllunio gofodol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau Adran 42

Ar ôl cwrdd â Russell Elliot, arbenigwr Seilwaith Gwyrdd CCGC, gwirfoddolodd Jan i archwilio'r posibilrwydd o fapio cyfleoedd mewn perthynas ag Adran 42 ar raddfa ranbarthol ar gyfer Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol. Cyfeiriodd Nigel at y gwaith sy'n mynd rhagddo, y mae Carole Newberry o CCGC yn rhan ohono, a geisiodd gontractwr i edrych ar swyddogaethau gwahanol y GI (gan gynnwys bioamrywiaeth) a llunio haenau o fap GIS yn cynrychioli'r swyddogaethau hynny er mwyn helpu i nodi cyfleoedd amlswyddogaethol yn y rhanbarth.

Adroddiad y CGB 2008

Mae Aethne yn cydlynu'r gwaith o sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen newydd ar gyfer Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a fydd yn llunio adroddiad y Bartneriaeth ar gyfer 2008 yn seiliedig ar ddadansoddiad gorffenedig o'r data.

Unrhyw Fater Arall

Nododd Stephen ei fod wedi derbyn e-bost (a anfonwyd at bob grŵp lefel Cymru) yn gofyn a fyddai'n bosibl iddynt ddarparu hyfforddiant ar gyfer swyddogion prosiect Glastir. Roedd ganddo ddau bryder

1. byddai hyn yn arwain at ddull anghydlynol o hyfforddi swyddogion prosiect
2. unwaith eto, gofynnid i'r gymuned fioamrywiaeth ddarparu gwasanaeth am ddim.

Mae'r Cyswllt Ffermio yn bodoli i ddarparu gwasanaeth hyfforddi cydlynol i ffermwyr ar ffurf pecynnau proffesiynol, ac ar gyfer meysydd eraill o hyfforddiant caiff y pecynnau hyn eu hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gallai Cyswllt Ffermio fod yn gyfrifol am ddatblygu cynllun wedi'i ariannu'n briodol ar gyfer

hyfforddi swyddogion prosiect Glastir, gyda mewnbwn gan y Grŵp Arbenigwyr ar Rywogaethau a'r Grwpiau Ecosystem.

Diolch

Hoffwn ddiolch i chi gyd am y gwaith rydych wedi'i wneud i lunio'r ffordd newydd hon o ymdrin â chamau gweithredu bioamrywiaeth yng Nghymru ac am eich cyfraniadau parhaus mewn grwpiau a phartneriaethau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Gwerthfawrogaf fod gennych ymrwymiadau eraill ym maes bioamrywiaeth ac edrychaf ymlaen at weld manteision pellach yn deillio o fioamrywiaeth yn y dyfodol wrth i ni ymdrechu i gyflawni targed Strategaeth Amgylcheddol Cymru o wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth erbyn 2026.

TERFYNOL MEHEFIN 02 2010

Camau gweithredu a chanlyniadau o'r 7fed Cyfarfod ar Ddyfodol y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (CGB) ar 23ain Chwefror 2010

Presennol

Nick Birula	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (Cadeirydd)
Julia Korn	Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Russel Hobson	Gwarchod Glöynnod Byw
Nigel Ajax Lewis	Ymddiriedolaethau Natur
Stephen Bladwell	RSPB
Kate Williamson	Y Gymdeithas Famaliaid/Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Parc Cenedlaethol Eryri

Rhif	Pwy/Cam Gweithredu	Canlyniad	Cynnydd
COFNODION A CHAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD DIWETHAF Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru			
1	**Julia i drafod â Diana sut y byddwn yn esbonio'r prif newidiadau i Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru.**	**Cyfathrebu da a dealltwriaeth o'r newidiadau a wnaed i Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru**	**CYFLAWNWYD - y fframwaith wedi'i gyhoeddi ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**
RHYWOGAETH Bylchau o ran partneriaid arweiniol			
2	Juliet i drafod â Natur a fyddai'n bosibl iddynt ddatblygu prosiectau i feithrin sgiliau bioamrywiaeth yng Nghymru.	Prosiect strategol yn darparu sail sgiliau well a, dros amser, nifer o arbenigwyr bioamrywiaeth yng Nghymru	
3	**Stephen i ddosbarthu rhestr lawn o rywogaethau y mae angen partneriaid arweiniol arnynt o hyd i aelodau o Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**	**Rhestr lawn o bob grŵp rhywogaeth yng Nghymru i bartneriaid arweiniol**	**CYFLAWNWYD**
4	Stephen i gysylltu â'r rheini a gynigiodd arwain ar rywogaethau penodol yng nghyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru	Fel yr uchod	CYFLAWNWYD
5	**Kate i ddosbarthu gwybodaeth am Fforwm**	**Mae system cymorth a chyfathrebu ar**	**CYFLAWNWYD**

	Gweithredu Bioamrywiaeth Mamaliaid Cymru i aelodau'r Grŵp Arbenigwyr ar Rywogaethau ac eraill sydd â diddordeb mewn sefydlu rhwydweithiau tebyg.	**waith i bartneriaid arweiniol a thebygolrwydd is y bydd un person yn gyfrifol am nifer fawr o rywogaethau**	
Camau i'w cymryd a phennu targedau mewn perthynas â rhywogaethau			
6	Julia i lunio gwybodaeth ar gyfer y wefan er mwyn lansio'r ymgynghoriad ar blanhigion fasgwlar, Lepidoptra a chamau i'w cymryd mewn perthynas â Mamaliaid.	Mae cymuned CGB yn deall sut a lle y caiff camau gweithredu a thargedau CGB eu cyhoeddi ac, mewn perthynas â chamau gweithredu, sut y caiff y broses ymgynghori ei chynnal	CYFLAWNWYD
7	**Julia i lunio neges e-bost am yr ymgynghoriad gan gynnwys y wybodaeth ychwanegol am y broses (h.y. sut y caiff camau gweithredu a thargedau mewn perthynas â rhywogaethau eu datblygu a'u cyhoeddi) a'i hanfon ar 1af o Fawrth. Dylid gwneud yr un peth ar gyfer ymgyngoriadau yn y dyfodol.**	**Fel yr uchod**	**CYFLAWNWYD/YN MYND RHAGDDO**
8	Kate, Russel a Trevor i reoli'r ymgynghoriad ar gyfer eu meysydd arbenigol.	Arbenigwyr penodol sy'n bartneriaid arweiniol ar gyfer y rhywogaethau hynny i berchenogi, diweddaru a chytuno ar gamau gweithredu	CYFLAWNWYD
9	**Stephen i sicrhau bod partneriaid arweiniol yn ymwybodol o'r broses hon a'u rolau**	**Mae partneriaid arweiniol yn deall eu rôl o ran llunio camau gweithredu a thargedau**	
10	Stephen i drefnu'r casgliad nesaf o gamau gweithredu/targedau a rhoi gwybod i Julia pan gânt eu cyhoeddi.	Ceir proses ymgynghori sy'n gweithio'n iawn	Julia yn gwneud hyn - CYFLAWNWYD/YN MYND RHAGDDO
11	**Sean McHugh i ddiweddaru gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a sicrhau y caiff camau gweithredu eu cyhoeddi ar ddyddiadau priodol a'u dileu ar ddiwedd y cyfnodau ymgynghori**	**Fel yr uchod**	**CYFLAWNWYD/YN MYND RHAGDDO**
12	Rhwydwaith CCGC i sicrhau y caiff staff Rhanbarthol/Pencadlys CCGC eu cynnwys	Cynnwys staff Pencadlys a Rhanbarthol CCGC yn llawn yn yr ymgynghoriad ar	CYFLAWNWYD/YN MYND RHAGDDO - caiff

		gamau gweithredu mewn perthynas â rhywogaethau	neges e-bost am bob ymgynghoriad ei hanfon at Jan, Aethne a chysylltiadau rhanbarthol CCGC i'w dosbarthu
13	**Juliet i sicrhau y caiff pob targed ei gyhoeddi ar dudalennau cynghori'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth (BARS)**	**Cyfleu targedau rhywogaethau ar BARS**	**CYFLAWNWYD/YN MYND RHAGDDO - bydd yr unigolyn sy'n cymryd lle Juliet yn parhau â hyn**
GRŴP DYFODOL Y CGB - SICRHAU Y CAIFF CAMAU EU CYMRYD			
14	Julia i ysgrifennu nodyn i wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn crynhoi cyflawniadau Grŵp Dyfodol y CGB a bod y dasg bellach wedi'i chwblhau (oni bai bod angen i'r grŵp ailffurfio ar gyfer materion yn y dyfodol). Os oes gan bobl unrhyw ymholiadau neu faterion yr hoffent eu trafod, gellir sôn amdanynt wrth Dîm Cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.	Mae'r gwaith y mae'r grŵp wedi'i gyflawni a'r ffaith bod ei dasg bellach wedi'i chwblhau yn cael ei gyfleu'n dda	
15	**Julia i ysgrifennu papur ar gyfer WBPSG11 ym mis Gorffennaf**	**Fel yr uchod**	**Cytunwyd gyda Diana Reynolds (Llywodraeth Cynulliad Cymru) y byddai'r nodyn uchod yn ddigonol**
16	Julia i gymryd camau i adolygu unrhyw faterion a gododd yng nghyfarfod Tîm Cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ym mis Rhagfyr 2010 ac i ailffurfio'r grŵp ar gyfer cyfarfod ym mis Chwefror os oes angen.	Cafodd materion yn ymwneud â gwaith y grŵp hwn eu hadolygu'n barhaus a defnyddiwyd systemau priodol i ddelio â hwy.	Ychwanegwyd at gamau gweithredu Tîm Cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru mewn cyfarfod ym mis Mawrth
SEMINARAU BIOAMRYWIAETH LLEOL YM MIS MAI 2010			
17	**Julia i ddatblygu'r gweithdy bore a dosbarthu'r wybodaeth i bawb**	**Cyfathrebu/ymgynghori ar syniad sy'n ymwneud â gweithdy ar gyfer seminarau lleol**	CYFLAWNWYD
18	Juliet i sicrhau y gellir gosod yr ystafell yng Nghaerffili	Ystafell briodol ar gyfer seminar	CYFLAWNWYD -

	ar ffurf cabaret gyda digon o le i chwe bwrdd.		cynhaliwyd y seminar yng Nghwmbrân
19	**Tîm Cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i ddatblygu sesiynau prynhawn ar gyfer pob un o'r Seminarau**	**Mae'r seminar yn mynd i'r afael â materion sy'n berthnasol i bob ardal**	**CYFLAWNWYD**
20	Julia i gadarnhau y bydd y Grŵp Ecosystemau ac arbenigwyr ar rywogaethau yn cymryd rhan ym mhob seminar - gwnaeth Russel gynnig cymryd rhan yn y ddau yn Ne Cymru a soniodd Stephen fod Adrian Fowles wedi gwirfoddoli i ymuno ag ef a Kate ym Mangor. Mae Sam Bosenquet wedi gwirfoddoli i gefnogi'r seminar yng Nghaerffili.	Daeth llawer o gynrychiolwyr o grŵp lefel Cymru a chafwyd prosesau cyfathrebu da rhwng partneriaid ar lefel Cymru a lefel leol/rhanbarthol	CYFLAWNWYD
21	**Julia i fynd â'r prif bapur i gyfarfod 11 Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ym mis Gorffennaf, gan gynnwys y canlyniadau allweddol o'r seminarau ac unrhyw gamau y dylid eu cymryd ar gyfer Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Caiff camau terfynol y grŵp hwn eu hatodi i adroddiad cynnydd. Dylai'r papur gynnwys cam gweithredu mewn perthynas â digwyddiadau a gweithgareddau cyfathrebu yn y dyfodol.**	**Cytunodd Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar gamau priodol i fynd i'r afael â materion a llunio datrysiadau mewn seminarau rhanbarthol**	**YN MYND RHAGDDO**
MAPIO CYFLEOEDD AR GYFER CYNLLUNIO GOFODOL O RAN CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU ADRAN 42			
22	Jan i drafod y broses o fapio cyfleoedd cynefinoedd a rhywogaethau Adran 42 â Carole Newberry i sicrhau nad yw'r gwaith yn dyblygu gwaith y contract cyfredol.	Mae mentrau cyfredol wedi'u hintegreiddio ag unrhyw ymarferion mapio cyfleoedd ac yn eu llywio	YN MYND RHAGDDO
Unrhyw Fater Arall Arbenigwyr ar fioamrywiaeth a chymorth hyfforddi ar gyfer swyddogion prosiect Glastir			
23	**Stephen (gyda Chadeiryddion eraill y Grŵp Ecosystemau) i awgrymu i Lywodraeth Cynulliad Cymru bod angen hyfforddi Swyddogion Bioamrywiaeth prosiect Glastir mewn ffordd strwythuredig a rheoledig drwy'r Cyswllt Ffermio.**	**Pecynnau hyfforddi strwythuredig sy'n llawn gwybodaeth ac wedi'u hariannu'n briodol ar gyfer Swyddogion Bioamrywiaeth Prosiect Glastir.**	